OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 2284

# Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001

**Prif bwyllgorau craffu a phwyllgorau craffu**

**6.**—(1) Rhaid i brif bwyllgor craffu a sefydlir o dan reoliad 4(1)(b):

(a) beidio â chynnwys unrhyw un o aelodau'r Bwrdd; a

(b) peidio â chael cadeirydd sy'n aelod o'r un grwp gwleidyddol â chadeirydd y Bwrdd (ac eithrio pan nad oes ond un grwp gwleidyddol); a

(c) gael cadeirydd sydd yn aelod o'r awdurdod.

(2) Rhaid i bwyllgor craffu a sefydlir o dan reoliad 4(1)(c)—

(a) cynnwys ymhlith ei aelodaeth fwyafrif o aelodau'r awdurdod nad ydynt yn aelodau o'r Bwrdd ac fe gaiff gynnwys ymhlith ei aelodaeth hyd at dri aelod o'r Bwrdd ond ni fydd gan unrhyw aelod o'r Bwrdd hawl i fod yn gadeirydd ar bwyllgor craffu; a

(b) cael cadeirydd sydd yn aelod o'r awdurdod.

(3) Bydd gan Bwyllgor Craffu a sefydlir o dan reoliad 4(1)(c) bŵer dirprwyedig—

(a) i adolygu neu graffu ar benderfyniadau a wnaed, neu gamau a gymerwyd, mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw un o swyddogaethau'r awdurdod;

(b) i gyflwyno adroddiadau neu argymhellion i'r awdurdod mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw un o swyddogaethau'r awdurdod;

(c) i gyflwyno adroddiadau neu argymhellion i'r awdurdod neu i drigolion yr ardal honno;

(ch) i argymell, mewn achos lle mae penderfyniad wedi'i wneud ond heb ei weithredu, fod y penderfyniad yn cael ei ailystyried gan y pwyllgor, yr is-bwyllgor neu'r person a wnaeth y penderfyniad; a

(d) i drefnu bod ei swyddogaeth o dan baragraff (i) yn cael ei harfer gan yr awdurdod.

(4) Bydd gan brif bwyllgor craffu a sefydlir o dan reoliad 4(1)(c) y pwer dirprwyedig i ymgymryd â swyddogaethau pwyllgor archwilio yn unol â pharagraff (3) ond bydd y pwerau hynny'n arferadwy i'r graddau y maent yn ymwneud â swyddogaethau'r Bwrdd yn unig.

(5) Yn ddarostyngedig i baragraff (6), ni chaiff pwyllgor craffu gyflawni unrhyw swyddogaeth heblaw yn unol â'r rheoliadau hyn.

(6) Os nad yw, neu i'r graddau nad yw, swyddogaeth awdurdod lleol o gynnal adolygiadau'r gwerth gorau o dan adran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999(**1**) yn gyfrifoldeb i Fwrdd yr awdurdod, caiff yr awdurdod drefnu i'r prif bwyllgor craffu neu i unrhyw bwyllgor craffu gynnal adolygiad o'r fath.

(7) Caiff prif bwyllgor craffu a phwyllgor craffu—

(a) penodi un neu ragor o is-bwyllgorau, a

(b) trefnu i unrhyw is-bwyllgor o'r fath gyflawni unrhyw un o'i swyddogaethau.

(**1**) 1999 p.27.

(8) Ni chaiff is-bwyllgor i brif pwyllgor craffu neu bwyllgor craffu gyflawni unrhyw swyddogaethau heblaw'r rhai a roddir iddo o dan baragraff (6).

(9) Rhaid i drefniadau amgen gan awdurdod lleol gynnwys darpariaeth sydd—

(a) yn galluogi unrhyw aelod o brif bwyllgor craffu neu bwyllgor craffu i sicrhau bod unrhyw fater sy'n berthnasol i swyddogaethau'r pwyllgor yn cael ei gynnwys ar yr agenda ar gyfer cyfarfod o'r pwyllgor ac yn cael ei drafod yno;

(b) yn galluogi unrhyw aelod o is-bwyllgor i bwyllgor o'r fath i sicrhau bod unrhyw fater sy'n berthnasol i swyddogaethau'r is-bwyllgor yn cael ei gynnwys ar yr agenda ar gyfer cyfarfod o'r is-bwyllgor ac yn cael ei drafod yno; ac

(c) yn galluogi prif bwyllgor craffu neu bwyllgor craffu i gyfeirio unrhyw fater mewn cysylltiad â phenderfyniad neu benderfyniad arfaethedig gan y Bwrdd at yr awdurdod lleol ar yr amod fod y penderfyniad neu'r penderfyniad arfaethedig yn ymwneud â swyddogaethau'r pwyllgor hwnnw.

(10) Caiff prif bwyllgor craffu a phwyllgor craffu, neu unrhyw is-bwyllgor i bwyllgor o'r fath gynnwys personau nad ydynt yn aelodau o'r awdurdod, ond ni fydd gan unrhyw bersonau o'r fath hawl i bleidleisio mewn unrhyw gyfarfod o bwyllgor neu is-bwyllgor o'r fath ar unrhyw gwestiwn sydd i'w benderfynu yn y cyfarfod hwnnw.

(11) Mae is-adrannau (2) a (5) o adran 102 o Ddeddf 1972 i fod yn gymwys i brif pwyllgor craffu a phwyllgor craffu, neu i is-bwyllgor i bwyllgor o'r fath, fel y maent yn gymwys i bwyllgor a benodir o dan yr adran honno.

(12) Caiff prif bwyllgor craffu a phwyllgor craffu, neu is-bwyllgor i bwyllgor o'r fath—

(a) ei gwneud yn ofynnol i aelodau o'r Bwrdd ac i swyddogion o'r awdurdod fod yn bresennol ger ei fron i ateb cwestiynau, a

(b) gwahodd personau eraill i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y pwyllgor neu'r is-bwyllgor.

(13) Bydd unrhyw aelod o'r Bwrdd neu unrhyw un o swyddogion yr awdurdod sydd wedi'i awdurdodi i fod yn bresennol i ateb cwestiynau yn unol â pharagraff (12) o dan ddyletswydd i wneud hynny ond ni fydd ar unrhyw aelod neu swyddog o'r fath rwymedigaeth i ateb unrhyw gwestiwn y byddai gan y person hwnnw hawl i wrthod ei ateb mewn achos, neu at ddibenion achos, mewn llys yng Nghymru neu Loegr.